# Cynhaliwyd Adolygiad gan Gymheiriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol AaGIC ar Golwg Gwan ar 18 Medi 2024

Roedd y digwyddiad Adolygiad gan Gymheiriaid Amlddisgyblaethol Golwg Gwan a gynhaliwyd gan Optometreg AaGIC ddydd Mercher, 18 Medi 2024, yn llwyddiant sylweddol, gan ddod â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghyd. Fe wnaeth y digwyddiad feithrin awyrgylch cydweithredol lle roedd y rhai sy'n ffurfio gofal cymdeithasol ac iechyd yn rhannu mewnwelediadau ar reoli cleifion trwy'r llwybrau golwg gwan.




*[Uchod, yn cyflwyno: Owen Williams, Director Wales Council of the Blind]*

**Llwyddiannau Allweddol y Digwyddiad:**

**Amgylchedd Cydweithredol**: Creodd y digwyddiad amgylchedd cynhwysol i weithwyr proffesiynol o ofal cymdeithasol ac iechyd gymryd rhan mewn trafodaethau am senarios achos

**Grymuso Ymarferwyr**: Drwy wella gwybodaeth a hyder, grymusodd y digwyddiad weithwyr gofal cymdeithasol a gofal iechyd proffesiynol i ddeall yn well y systemau cymorth lleol a chenedlaethol sydd ar

byd go iawn yn ymwneud â golwg gwan. Roedd yr awyrgylch gydweithredol hwn yn caniatáu i fynychwyr rannu mewnwelediadau, mynd i'r afael â heriau, a thaflu syniadau ar gyfer rheoli a strategaethau llwybr atgyfeirio, gan hyrwyddo cymorth gan gymheiriaid, dysgu a chyd-ddealltwriaeth.

**Cyfnewid Gwybodaeth**: Darparodd blatfform gwerthfawr ar gyfer cyfnewid adnoddau, gwybodaeth gyfredol, ac arbenigedd proffesiynol. Llwyddodd y digwyddiad i bontio'r bwlch rhwng gwahanol grwpiau sy'n ymwneud â chefnogi unigolion sy'n byw gyda cholled golwg, gan annog lledaenu arferion gorau a dulliau gofal arloesol.

gael i bobl sy'n byw â cholled golwg. Roedd y rhannu gwybodaeth hwn yn galluogi cyfranogwyr i gysylltu cleifion yn fwy effeithiol â'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan sicrhau cymorth amserol a phriodol.

Rydym yn obeithiol bod yr adolygiad gan gymheiriaid hwn wedi cryfhau'r cydweithio rhwng gwahanol grwpiau proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu am unigolion sy'n byw â cholled golwg, gan wella ansawdd eu bywyd yn y pen draw.

*[Isod, yn cyflwyno: Stephanie Phillips, QVTI]*




**Derbyniodd yr adolygiad gan gymheiriaid sgôr ansawdd cyffredinol o 4.89 allan o 5.00 seren.**

☆☆☆☆☆

## Useful links:

- Perspectif - Wales Council of the Blind
- RNIB Wales
- SightLife

# Dewch i gwrdd â'n Cymrawd Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol newydd yng Nghymru, Charlotte Cooper-Troth



Graddiodd Charlotte o Brifysgol Caerdydd yn 2010 gyda Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Optometreg a Gwyddorau'r Golwg. Cymhwysodd fel Optometrydd yn 2011.

Mae hi wedi mwynhau gweithio fel Optometrydd preswyl a locwm yn Ne Cymru a De-orllewin Lloegr, Yn fwyaf diweddar gweithiodd i bractis annibynnol ym Mro Morgannwg.

Mae Charlotte yn mwynhau heriau proffesiynol newydd, gan ennill y Dystysgrif Broffesiynol mewn Retina Feddygol yn 2018. Bydd yn cyflawni'r Dystysgrif Uwch mewn Retina Meddygol ym mis Ionawr 2025. Mae'n gobeithio defnyddio'r cymwysterau hyn i gymryd rhan a chyfrannu at wella'r ddarpariaeth gofal llygaid yn ei chymuned.

Fel rhan o'i chymrodoriaeth AaGIC bydd yn cael hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae wedi cofrestru ar yr Ymarfer Proffesiynol MSc mewn Iechyd gyda Phrifysgol Wrecsam.

Mae hi'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r adran Optometreg yn AaGIC dros y flwyddyn i ddod i gyflwyno prosiect i "Ymchwilio'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial i gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaethau Gofal Llygaid".

## Dewch i gwrdd â'n Tiwtor Addysg a Hyfforddiant - Erica Campbell-Walker



Erica yw Tiwtor Arweiniol Hyfforddiant ac Addysg ar gyfer Optometreg yn AaGIC. Mae hi'n Optometrydd Rhagnodi Annibynnol (IP) gyda 25 mlynedd o brofiad mewn practisys cadwyn a rhai annibynnol. Hefyd, mae ganddi brofiad mewn ysbytai, gan gynnwys treulio amser fel cyfarwyddwr mewn practis cadwyn. Mae hi wedi cyflawni'r Tystysgrifau Proffesiynol mewn Glawcoma, Golwg Gwan, Retina Meddygol a Gofal Llygaid Pediatrig fel rhan o MSc mewn Optometreg Glinigol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae Erica yn teimlo'n gryf am addysg ac i ddatblygu sgiliau clinigol uwch ar gyfer y gweithlu optegol. Mae hi hefyd yn frwdfrydig i nodi ffyrdd o gydweithio â'n cydweithwyr Offthalmoleg i ddarparu gofal llygaid hygyrch o ansawdd uchel i'n cleifion. Mae'n mwynhau heriau a datrys problemau ynghyd â dysgu sgiliau newydd yn barhaus.

## 'Amharu ar y golwg - trafod achosion ar AKC, erydiad rheolaidd a bleffarospasm' - Adolygiad Cymheiriaid Arbenigedd Rhagnodi Annibynnol



Roedd yr Adolygiad gan Gymheiriaid Arbenigedd Rhagnodi Annibynnol 'Amharu ar y golwg - trafod achosion ar AKC, erydiad cyson a bleffarospasm' a gynhaliwyd gan Optometreg AaGIC ddydd Mercher, 25 Medi 2024, yn llwyddiant sylweddol. Gwelwyd Optometryddion Rhagnodi Annibynnol ac Offthalmolegwyr o bob rhan o Dde Cymru yn cael eu dwyn ynghyd, gan feithrin awyrgylch cydweithredol a rhyngweithiol.

**Prif Lwyddiannau'r Digwyddiad:**

**Amgylchedd Cydweithredol***:* Rhoddodd y digwyddiad fan cynhwysol i'r Optometryddion gymryd rhan mewn trafodaethau gydag Offthalmolegwyr am sefyllfaoedd ar achosion o'r byd go iawn yn ymwneud â Rhagnodi Annibynnol. Roedd y lleoliad cydweithredol hwn yn caniatáu i'r rhai oedd yn mynychu i rannu dealltwriaeth ac i fynd i'r afael â heriau. Roedd hefyd yn caniatau hel syniadau a strategaethau am lwybrau atgyfeirio, gan hybu cymorth gan gymheiriaid, dysgu cydweithredol a dealltwriaeth.

**Adborth:** *'Roedd cysylltiad go iawn ag ymgynghorwyr ac roedd yn ddefnyddiol o ran awgrymiadau ar gyfer ymarfer bob dydd. Wnes i fwynhau'r grwpiau bach a'r sesiwn adborth.'*

**Cyfnewid Gwybodaeth**: Cafodd achosion eu cyflwyno gan yr Offthalmolegwyr Ymgynghorol Ms Magdalena Popiela a Mr Tom Betts o Lawfeddygon Llygaid y Fro. Rhoddwyd adborth cadarnhaol i hyn. Roedd presenoldeb ymgynghorydd offthalmoleg yn rhoi llwyfan gwerthfawr ar gyfer cyfnewid pynciau Rhagnodi Annibynnol ac arbenigedd proffesiynol.

*[Uchod, yn cyflwyno: Ms Magdalena Popiela, Offthalmolegydd Ymgynghorol]*

Llwyddodd y digwyddiad i bontio'r bwlch rhwng Optometryddion ac Offthalmolegwyr o ran cynorthwyo cleifion, gan annog lledaenu arferion gorau a dulliau gofal arloesol.

**Adborth:** 'Roedd *gallu sgwrsio'n uniongyrchol gydag ymgynghorwyr profiadol mewn grwpiau bach yn hynod ddefnyddiol.'*

**Grymuso Ymarferwyr***:* Roedd 100% o'r adborth a dderbyniwyd yn dangos bod yr Optometryddion Rhagnodi Annibynnol yn teimlo'n fwy hyderus yn eu cwmpas ymarfer yn dilyn y digwyddiad hwn.

Rydym yn obeithiol bod yr adolygiad hwn gan gymheiriaid wedi grymuso'r cydweithio rhwng gwahanol grwpiau proffesiynol sy'n ymwneud â Rhagnodi Annibynnol.

**Derbyniodd yr adolygiad gan gymheiriaid sgôr ansawdd cyffredinol o 5.00 allan o 5.00 seren.**

☆☆☆☆☆

## Digwyddiadau i ddod

## Adolygiad Cymheiriaid Arbenigedd Rhagnodi Annibynnol (Digwyddiad Ar-lein)

'Vision disrupted - case discussions on AKC, recurrent erosion and blepharospasm'

Mae Optometreg AaGIC yn eich gwahodd i fynychu sesiwn Adolygu Cymheiriaid Rhagnodi Annibynnol ar-lein. Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Ms Magdalena Popiela a Mr Tom Betts (Offthalmoleg Ymgynghorol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) yn cyflwyno'r achosion arbenigol, i'w trafod gyda hwyluswyr Rhagnodi Annibynnol.

Dydd Mercher 20 Tachwedd 2024

18.30-20.30

ARCHEBU EICH LLE

---

---

## Adolygiad Cymheiriaid Amlddisgyblaethol Golwg Gwan CTMUHB

Rydym yn falch o ddarparu fforwm ar gyfer cymorth gan gymheiriaid amlddisgyblaethol, lle gall mynychwyr drafod senarios ar sail achosion a rheolaeth neu ddatrysiadau posibl.

Dydd Mercher 20 Rhagfyr 2024

18.00-21.00

Ty Dysgu, Nantgarw, CF15 7QQ

ARCHEBU EICH LLE

---

## Cynhadledd AaGIC: 'Optometreg 360'

Bydd y gynhadledd yn cynnwys amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys rhagnodi annibynnol, heriau clinigol ac yn cynnwys prif ddarlith a dewis o gyfleoedd adolygu gan gymheiriaid. Bydd hefyd yn archwilio'r heriau gweledol sy'n gyffredin ymhlith unigolion niwrowahanol, megis gwahaniaethau prosesu synhwyraidd, anawsterau tracio llygaid, a strategaethau archwilio sensitifrwydd golau.

Dydd Mercher 19 Chwefror

14.00-19.30

Stadiwm Rhyddid Abertawe

ARCHEBU EICH LLE

## Adolygiad Cymheiriaid Amlddisgyblaethol Golwg Gwan ABUHB

Rydym yn cwblhau manylion lleoliad ar gyfer y digwyddiad hwn, unwaith y byddant wedi'u cwblhau byddwn yn mynd allan gyda chyfathrebu / archebu eich lle ar Tractivity.

Dydd Mercher 24 Rhagfyr 2024

18.00-21.00

**heiw.optometry@wales.nhs.uk**
**Ymholiadau cyffredinol neu hyfforddiant ac achrediad WGOS**

**nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk**
**Ymholiadau clinigol WGOS neu ymholiadau ynghylch rheolaeth WGOS**

**HEIW.OptometryLowVision@wales.nhs.uk**
**Hyfforddiant ac achrediad Golwg Gwan**

**Low.vision@wales.nhs.uk**
**Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru - ymholiadau clinigol, ar sail rheolaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau**

**Tel: 01443 824653**

Os nad ydych yn dymuno clywed gennym bellach, gallwch ddad-danysgrifio o'n holl ddiweddariadau.

HEIW, Ty Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ

Polisi preifatrwydd

# Optometry Newsletter

Autumn 2024

Neidio i'r Gymraeg